

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR  
FFRAMWAITH GWELLA MESURAU ARBENNIG**

**Mai 2018 – Medi 2019**

**Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'n glir y cerrig milltir a'r disgwyliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dan y trefniadau mesurau arbennig ar gyfer pedair thema – arweinyddiaeth a llywodraethiant, cynllunio strategol a gwasanaethau, iechyd meddwl a gofal sylfaenol gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau o fis Mai 2018 i fis Medi 2019.**

**Amlinellwyd y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd a'r cerrig milltir canlynol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2018 a mis Ebrill 2018 yn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 1 Chwefror 2018:**

- Lleihau amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth oddeutu 50% yn y niferoedd sy'n aros dros 36 wythnos a'r cynnydd i barhau yn ystod 2018/19
- Gwella perfformiad gofal heb ei drefnu mewn modd sy'n gynaliadwy
- Cymryd camau gweithredu i adfer y sefyllfa ariannol er mwyn i'r Bwrdd Iechyd fodloni'r rhagolwg diwygiedig o £36 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn a gwella yn ystod 2018/19
- Lleihau nifer y cleifion sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal
- Datblygu cynllun gwella ansawdd a llywodraethiant thematig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl
- Penodi Cyfarwyddwr Trawsnewid a thîm a dangos bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn gyflymach
- Penodi Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol a fydd yn adrodd i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd
- Rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer cynllunio, a phenodi tîm, gan gyflwyno tystiolaeth o'r gwaith ar gyfer datblygu cynllun hollistaidd a Chynllun Tymor Canolig Integredig mewn partneriaeth
- Cyflwyno tystiolaeth bod arweinyddiaeth glinigol yn gweithio, ar y cyd â chyfarwyddwyr cynllunio a chyfarwyddwyr proffesiynol, ar gynigion ar gyfer gwasanaethau clinigol
- Cytuno ar gynllun gweithredu a pharhau â'r gwaith o fodloni'r argymhellion a nodwyd yn Adolygiad Deloitte
- Rhoi rhaglen ddatblygu sy'n seiliedig ar dîm ar waith ar gyfer y Tîm Gweithredol
- Rhoi proses benodi ar waith ar gyfer Cadeirydd, Is-gadeirydd a 5 aelod annibynnol, a'r gwaith hwn bron â'i gwblhau.

Mae'r fframwaith hwn yn adeiladu ar y cerrig milltir a nodwyd yn flaenorol, ac mae'n canolbwyntio ar y meysydd lle mae angen gwneud cynnydd ychwanegol er mwyn ystyried isgyfeirio'r Bwrdd lechyd rhag y mesurau arbennig yn y dyfodol.

Mai 2018 – Medi 2018

Thema	Disgwyliad
<p><b>Arweinyddiaeth a Llywodraethiant</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd camau digonol wedi'u cymryd i ddatblygu bwrdd o swyddogion gweithredol ac anweithredol sydd â'r gallu priodol, sy'n gymwys ac sydd â'r sgiliau i gyflawni blaenoriaethau strategol y bwrdd iechyd;*</li> <li>• Parhau i weithredu rhaglen ddatblygu sy'n seiliedig ar dîm ar gyfer y Tîm Gweithredol;</li> <li>• Penodi Cadeirydd, Is-gadeirydd a 5 aelod annibynnol newydd a rhoi'r hyfforddiant priodol iddynt;</li> <li>• Gwaith wedi mynd rhagddo i fodloni'r argymhellion a nodwyd yn Adolygiad Deloitte fel yr amlinellwyd yn y cynllun gweithredu y cytunwyd arno;*</li> <li>• Darparu'r cynllun cyllid ar ddiwedd y chwe mis cyntaf fel yr amlinellwyd er mwyn cyflawni'r cyfanswm rheoli cyllid y cytunwyd arno;</li> <li>• Arweinyddiaeth ac ymrwymiad y Bwrdd yn amlwg tuag at weithredu proses, paratoi ac ymateb yn effeithiol i ymchwiliad y Gwasanaeth Cyngori ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HAFCAS) ac adolygiad Ockenden gan fynd ati'n brydlon, yn onest ac yn effeithiol i gyfathrebu â thelueodd, staff, partneriaid, y cyhoedd yn ehangach a'r cyfryngau, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r materion ehangach a nodwyd;*</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tystiolaeth o welliant i'r broses gynllunio integredig ar gyfer y maes clinigol, gwasanaethau, y gweithlu a chyllid er mwyn sicrhau trawsnewid;*</li> <li>• Bod tîm Trawsnewid ar waith i gefnogi'r Cyfarwyddwr Trawsnewid i gyflawni, a'i fod yn dangos bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn gyflymach yn erbyn y cynllun a'r fethodoleg y cytunwyd arnynt;*</li> <li>• Bod y Cynlluniau Llesiant Lleol y cytunwyd arnynt ar gyfer y pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Iechyd yn ymwneud â chyflawni'r cydflaenoriaethau;*</li> <li>• Bod strategaeth y gweithlu a datblygu sefydliadol wedi'i datblygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd, a'i bod yn nodi datblygu arweinyddiaeth fel blaenoriaeth allweddol;*</li> <li>• Tystiolaeth o welliant parhaus i lefelau ymgysylltu â staff o arolygon ac adborth Undebau Llafur;*</li> <li>• Yr adborth i arolygon a'r adborth gan bartneriaid, gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned, yn dangos bod ymgysylltiad ac amgyffred y cyhoedd yn parhau i wella.*</li> </ul>
<p><b>Cynllunio strategol a gwasanaethau</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu ymhellach y strategaeth gwasanaethau clinigol integredig hirdymor a gymeradwywyd gan y Bwrdd;*</li> <li>• Bydd y Bwrdd a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gynllun gweithredol ar gyfer 2018/19 a bydd y gwaith o'i gyflawni yn erbyn y chwe mis cyntaf ar amser. Bydd hyn yn cynnwys gwelliannau ym meysydd ansawdd, gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio, gan nodi bod y targedau terfynol ar gyfer y flwyddyn yn dal yn destun trafodaeth ar hyn o bryd;*</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwelliant yn nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos;</li> <li>- Gwelliannau yng nghanran y cleifion sy'n cael eu trosglwyddo o'r ambiwlans i'r ysbyty</li> </ul>

mewn llai nag awr, cleifion sy'n treulio llai na 4 awr ym mhob uned frys mawr a llai ei maint, a gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n treulio dros 12 awr yno;

- Dangos bod y sefydliad cyfan yn dysgu'n amserol o'r prosesau o gyflwyno pryderon, cwynion, digwyddiadau a hawliadau er mwyn gwella'r safonau ansawdd ymhellach a'u diwallu, ac ymgysylltu'n llawn â'r trefniadau yn eu lle ar gyfer Cymru gyfan er mwyn sicrhau bod dysgu yn digwydd yn gyson drwy'r system/ar y cyd.
- Adrodd ar y ffordd y mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y rhaglen gofal heb ei drefnu yn trawsnewid perfformiad, ansawdd a threfniadau cyflenwi;\*
- Sgrymiau diogelwch cleifion yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd gyda chymorth gweithredol clir;
- Cynnydd o ran datblygu'r hyb clinigol integredig gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau eraill sy'n helpu i leihau nifer y cleifion sy'n cael eu cludo gan ambiwlans argyfwng i'r Adrannau Brys;\*
- Arweinyddiaeth a chapasiti a gallu ychwanegol ar waith yn y tîm cynllunio er mwyn arwain a datblygu cynlluniau strategol mewn partneriaeth;\*
- Datblygu cynllun gwrthsefyll pwysau'r gaeaf sy'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac arweinwyr clinigol ar draws y llwybr gofal heb ei drefnu sy'n cynnwys camau gweithredu mesuradwy;\*
- Cynnydd o ran darparu egwyddorion pecyn llif cleifion SAFER i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal;
- Bydd y gwaith o ddatblygu cynllun tymor canolig integredig tair blynedd (i'w gyflwyno ym mis Ionawr 2019) yn cadw at yr amserlen y cytunwyd arni;\*

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tystiolaeth o gysondeb cynyddol mewn arferion clinigol a bod clinigwyr yn cydweithio â chyfarwyddwyr cynllunio a phroffesiynol ar gynigion gwasanaethau clinigol;*</li> <li>• Cynnydd o ran datblygu gwasanaethau orthopedig cynaliadwy, gan gynnwys cwblhau arfarniad o'r opsiynau sydd wedi'i brofi ac wedi'i drafod â Llywodraeth Cymru;</li> <li>• Cynllun offthalmoleg Gogledd Cymru wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a chynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i gytuno â Llywodraeth Cymru.</li> </ul>
<b>Iechyd Meddwl</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwelliant parhaus o ran cydymffurfio â thargedau perthnasol gan gynnwys y rheini a amlinellir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), er enghraifft, cynnal asesiad o fewn 28 diwrnod;*</li> <li>• Cynllun Gwella Ansawdd a Llywodraethiant Thematig ar gyfer gwasanaethau a phrosesau ym maes iechyd meddwl i fod ar waith er mwyn monitro'r ddarpariaeth a'r cynnydd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gofynion gwella ansawdd a llywodraethiant corfforaethol cyffredinol ac mae'n amlinellu ymateb clir i argymhellion adroddiadau megis rhai HAFCAS ac Ockenden;*</li> <li>• Y gwaith o roi'r strategaeth ar waith ar y gweill, gan gynnwys cynlluniau gweithredu'r Bwrdd Partneriaeth Lleol yn cael eu cymeradwyo a'u cyflawni gan y timau gweithredu lleol gan ymgysylltu'n llawn â defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid;*</li> <li>• Gostyngiad parhaus a chynaliadwy yn nifer y cleifion a leolir y tu allan i'r ardal, gan gynnwys CAMHS;*</li> <li>• Y strwythur rheoli newydd ar waith yn llawn.</li> </ul>
<b>Gofal sylfaenol gan</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol yn adrodd i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd ac</li> </ul>

<p><b>gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau</b></p>	<p>yn gweithio'n effeithiol gyda chlystyrau a phartneriaid i ddatblygu cynllun ar gyfer y dyfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- i sefydlu dulliau i sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol cadarn ar waith, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael;</li> <li>- i fabwysiadu ac addasu'r model trawsnewid ar gyfer gwasanaethau iechyd lleol sy'n tarddu o'r rhaglen arwain y ffordd genedlaethol, gan nodi camau gweithredu, amserlenni a chanlyniadau penodol;*</li> <li>- i osod camau gweithredu penodol o ran y ffordd y bydd gweithio ar lefel clwstwr yn datblygu, ac yn sail i hyn bydd y cyllid lefel clwstwr cylchol;*</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu pwrpas ac aelodaeth y Grŵp Trawsnewid Gofal Sylfaenol mwyn iddo roi cyngor a herio'r bwrdd iechyd ar ei gynllun a'i ddarpariaeth;</li> <li>• Bod gwasanaethau y tu allan i oriau yn parhau i gael eu gwella gan gynnwys sicrhau darpariaeth sifft ddigonol sy'n seiliedig ar gynllun strategol y cytunwyd arno;*</li> <li>• Tystiolaeth bod y bwrdd iechyd wedi gweithredu'r safonau diwygiedig cenedlaethol ar wasanaethau y tu allan i oriau a'i fod yn parhau i wneud cynnydd yn hyn o beth;*</li> </ul>
---	--

**Hydref 2018 – Mawrth 2019**

Thema	Disgwyliad
<p><b>Arweinyddiaeth a Llywodraethiant</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Bwrdd yn darparu gweithgareddau datblygu i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn ymwneud yn llawn â'r heriau a'u bod yn cyflawni'r amcanion strategol;*</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Camau'n cael eu cymryd i gynnal arweinyddiaeth a chapasiti ar y lefel uwch gan gynnwys y strwythur islaw'r tîm gweithredol;</li> <li>• Y cynllun ariannol ar amser o ran cyflawni'r cyfanswm rheoli cyllid y cytunwyd arno ar gyfer 2018/19;</li> <li>• Gwelliant a chamau ymgysylltu parhaus er mwyn sicrhau bod modd rhannu'r hyn a ddysgir drwy bryderon, cwynion, digwyddiadau a hawliadau;*</li> <li>• Dangos arweinyddiaeth ac ymrwymiad gweithredol gyda phartneriaid yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Partneriaethau Rhanbarthol er mwyn darparu'r cynlluniau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt er budd iechyd a llesiant pobl y Gogledd, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau;*</li> <li>• Cynnydd o ran pob argymhelliad ynghylch yr adolygiadau dilynol a chynlluniau ar waith ar gyfer cwblhau camau gweithredu i gynnwys Adolygiadau Deloitte, HAFCAS ac Ockenden;*</li> </ul>
<p><b>Cynllunio strategol a gwasanaethau</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd amlwg o ran gweithredu'r strategaeth gwasanaethau clinigol y cytunwyd arni gan gynnwys y cynlluniau ategol mewn meysydd clinigol penodol, a strategaeth ystadau i fod yn sail i fodelau gofal y dyfodol;</li> <li>• Bod cynllun tymor canolig integredig tair blynedd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn cael ei gyflwyno erbyn mis Mawrth 2019, ar gyfer cylch cynllunio 2019-2022;</li> <li>• Bod y gwaith o ddarparu yn erbyn y cerrig milltir y cytunwyd arnynt a amlinellir yng nghynllun gweithredu 2018/19 ar amser, gan gynnwys:</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cynnydd parhaus i leihau amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ac am ddiagnosis, yn unol â'r hyn a gynlluniwyd ac y cytunwyd arno, erbyn diwedd mis Mawrth 2019;</li> <li>- Gwelliant parhaus a chynaliadwy ym mherfformiad gwasanaethau gofal heb ei drefnu gyda gostyngiad pellach yn nifer y cleifion sy'n aros dros awr i gael eu trosglwyddo, llai na 4 a dros 12 awr mewn cyfleusterau gofal brys sy'n cynnal y cynnydd a wnaed yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ac sy'n cyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun blynyddol;</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu'r cynllun gwasanaethau orthopedig cynaliadwy yn ôl yr amserlen y cytunwyd arni;*</li> <li>• Cynllun offthalmoleg y Gogledd yn cael ei weithredu yn ôl yr amserlenni y cytunwyd arnynt;*</li> </ul>
<b>Iechyd Meddwl</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Bwrdd Iechyd Lleol yn parhau i ddarparu'r cynlluniau i fwrw ymlaen â'r gwaith ar yr argymhellion ac i fewnosod y gwersi a ddysgwyd/canfyddiadau arolygiadau AGIC, ymchwiliad HAFCAS ac Adolygiad Ockenden fel rhan o'r gwaith o ddarparu'r Cynllun Gwella Ansawdd a Llywodraethiant Thematic;*</li> <li>• Cynnydd parhaus i'w weld o ran darparu'r Strategaeth Iechyd Meddwl;*</li> <li>• Swyddi allweddol yn y strwythur rheoli wedi'u llenwi ac yn gadarn yn erbyn unrhyw absenoldebau staff heb eu rhagweld.*</li> </ul>
<b>Gofal sylfaenol gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd yn cael ei gynnal dros gyfnod y gaeaf o ran gweithredu'r safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau;*</li> <li>• Tystiolaeth o fwy o gadernid a chynaliadwyedd mewn gwasanaethau gofal sylfaenol;*</li> <li>• Cytuno ar gynllun gweithredu, gweledigaeth a chyfeiriad ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol, a'u bod yn cael eu cyflawni;*</li> </ul>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu rhaglen mewn partneriaeth er mwyn datblygu a gweithredu ar y cynigion y cytunwyd arnynt ar gyfer ffurf y canolfannau iechyd a llesiant yn y Gogledd.</li> </ul>
--	--

#### Ebrill 2019 – Medi 2019

Thema	Disgwyliad
<b>Arweinyddiaeth a Llywodraethiant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tystiolaeth bod argymhellion asesu strwythuredig Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u gweithredu fel rhan o'r camau gweithredu i sicrhau trefniadau llywodraethiant cynaliadwy a chadarn;*</li> <li>Y cynllun ariannol ar gyfer 2018/19 yn cyflawni yn erbyn y cyfanswm rheoli cyllid y cytunwyd arno a bod y cynlluniau ar gyfer 2019/20 yn cyflawni yn erbyn sefyllfa well fel yr amlinellir yn y cynllun tair blynedd y cytunwyd arno;*</li> <li>System amlwg o ddysgu sefydliadol effeithiol rhag pryderon ac ati ar waith.*</li> </ul>
<b>Cynllunio strategol a gwasanaethau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y cynllun tymor canolig integredig tair blynedd y cytunwyd arno â Llywodraeth Cymru ar gyfer cylch cynllunio 2019-2022 yn cael ei weithredu;*</li> <li>Tystiolaeth o welliant parhaus a chynaliadwy mewn amseroedd aros rhwng atgyfeirio a</li> </ul>

	<p>thriniaeth, a dim claf yn aros dros 36 wythnos am driniaeth ac eithrio gwasanaethau orthopedeg;*</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Perfformiad gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn parhau i wella, gan gynnwys canran o fwy na 90% o gleifion yn treulio llai na 4 awr mewn cyfleuster uned frys mawr a llai ei maint.*</li> </ul>
<b>Iechyd Meddwl</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawni'r camau gweithredu a'r cerrig milltir allweddol a amlinellir yn y cynllun Gwella Ansawdd a Llywodraethiant Thematig a dangos eu bod yn sicrhau canlyniadau;*</li> <li>• Tystiolaeth o gynnydd o ran darparu'r Strategaeth Iechyd Meddwl.*</li> </ul>

\*noder y disgwyliadau lle bo angen monitro/adrodd ar gynnydd yn barhaus